

I: Penaethiaid sefydliadau addysg uwch

Cyfeirnod: W06/55HE
Dyddiad: 19 Rhagfyr 2006
Ymateber erbyn: Gweler isod
Gwybodaeth bellach: Alison Allan
Ffôn: 029 2068 2223
Ebost: alison.allan@hefcw.ac.uk

CRONFA DARPARIAETH CYFRWNG CYMRAEG 2006/07

Rwyf yn ysgrifennu atoch i roi gwybod i chi am y trefniadau ar gyfer y Gronfa Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg ar gyfer 2006/07.

Yn wreiddiol, byddai'r trefniadau presennol ar gyfer y Gronfa Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg wedi dod i ben yn 2005/06. Fodd bynnag, yng ngoleuni'r asesiad opsiynau o fodelau ar gyfer cyflwyno darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y dyfodol a'r disgwyliad y byddai trefniadau newydd yn 2007/08 fel canlyniad, cytunodd y Cyngor i barhau â'r trefniadau presennol am 2006/07.

Mae dosbarthiad y Gronfa Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg yn cynnwys dyraniadau creiddiol i Brifysgol Cymru, Aberystwyth; Prifysgol Cymru, Bangor; Coleg y Drindod Caerfyrddin; ac Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd (APCC). Rhoddwyd rhan o'r gronfa o'r neilltu i alluogi sefydliadau, ar wahân i PC Aberystwyth, PC Bangor a Choleg y Drindod, i wneud ceisiadau am gyllid datblygu drwy'r Ganolfan Datblygu Addysg Cyfrwng Cymraeg. Mae cyfran o'r Gronfa ar gael hefyd i'w dyrannu ar sail y cynnydd mewn cofrestrïadau CALI yn erbyn man cychwyn 2001/02: trosglwyddir unrhyw arian sydd heb gael ei ddyrannu i gyllideb raglen y Ganolfan. Mae'r dyraniadau ar gyfer 2006/07 yn Atodiad A.

Bydd Dr Ioan Matthews yn ysgrifennu atoch cyn bo hir ynglŷn â'r trefniadau ar gyfer ceisiadau ar gyfer cyllid datblygu drwy'r Ganolfan Datblygu Addysg Cyfrwng Cymraeg. Bydd hyn yn cynnwys, o'r Gronfa Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg CCAUC, y swm o £26,428 a fydd yn cael ei ychwanegu i Gronfa Brosiectau'r Ganolfan y gall pob sefydliad ceisio amdano, a £51,970 a fydd yn cael ei glustnodi ar gyfer ceisiadau gan y sefydliadau canlynol:

Prifysgol Morgannwg
Prifysgol Caerdydd
Prifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan

Prifysgol Cymru Abertawe
Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd
Prifysgol Cymru, Casnewydd
Athrofa Addysg Uwch Gogledd Ddwyrain Cymru
Athrofa Addysg Uwch Abertawe
Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru.

Disgwyllir mai 28 Chwefror 2007 bydd y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau.

Bydd Alison Allan yn anfon ffurflenni i PC Aberystwyth, PC Bangor, Coleg y Drindod ac APCC yn gynnar yn y flwyddyn newydd er mwyn iddynt adrodd ar gynnydd ar eu defnydd o'u dyraniadau uniongyrchol o'r Gronfa. Gofynnwn am ymateb erbyn 23 Chwefror 2007.

Yn gywir

Philip Gummett
Prif Weithredwr